Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad Asesu Risg a Sicrwydd — Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Blwyddyn archwilio: 2021–22

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3256A2022

Paratowyd y ddogfen yn rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Yr hyn a adolygwyd gennym a pham 4

Sefyllfa ariannol 6

Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 10

Cynllun lleihau carbon 11

# Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Gwnaethom gynnal y prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu pan fo angen rhagor o waith archwilio yn y dyfodol mewn cysylltiad â risgiau wrth i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith er mwyn sicrhau gwerth am arian wrth iddo ddefnyddio adnoddau. Bu'r prosiect hwn hefyd o gymorth i ni asesu i ba raddau y mae'r corff yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

2 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein canfyddiadau yn y meysydd yr ydym wedi gwneud gwaith Sicrwydd ac Asesu Risg manylach ynddynt. Byddwn hefyd yn llunio Crynodeb Archwilio Blynyddol yn ystod hydref 2022 a fydd yn crynhoi ein holl waith archwilio a wnaed ers ein Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf ym mis Ionawr 2022.

3 Gwnaethom ganolbwyntio ar y meysydd canlynol yn y Cyngor:

- Sefyllfa ariannol
- Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
- Cynllun lleihau carbon

4 Roedd ein seiliau tystiolaeth ar gyfer y gwaith hwn yn cynnwys sgyrsiau gyda swyddogion ac adolygu dogfennau perthnasol.

5 Mae'r prosiect Asesu Risg a Sicrwydd wedi bod ar waith drwy gydol y flwyddyn. Gwnaethom gynnal gweithdy gyda'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol ym mis Mai 2022 lle gwnaethom rannu canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg o ran rhai agweddau ar y gwaith hwn. Defnyddiwyd y gweithdy hefyd i gasglu safbwyntiau uwch-reolwyr ar y risgiau archwilio allweddol mewn cysylltiad â'r Cyngor ac i lywio ein blaengynlluniau.

## Argymhellion

**Arddangosyn 1: argymhellion**

Mae’r tabl isod yn cynnwys yr argymhellion a nodiwyd gennym yn sgil yr adolygiad hwn.

| | |
|---|---|
| A1 | Dylai’r Cyngor sicrhau bod y camau gweithredu lefel uchel yn ei Gynllun Datgarboneiddio (Asesiad Parodrwydd):<br>• wedi eu blaenoriaethu ar sail meini prawf clir, gan gynnwys carbon ac effaith ariannol;<br>• yn gyson â’i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a’i Raglen Gyfalaf; ac<br>• wedi eu hintegreiddio i gynlluniau busnes. |
| A2 | Dylai’r Cyngor ddatblygu set gadarn o fetrigau i fesur ac adrodd cynnydd ar ei daith ddatgarboneiddio. |

# Sefyllfa ariannol

## Mae cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a gwell gwaith cynllunio a rheoli ariannol wedi cryfhau sefyllfa'r Cyngor, ond bydd cynllunio ar gyfer cadernid ariannol yn gynyddol heriol yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd economaidd sylweddol

6 Gwnaethon ni adolygu sefyllfa ariannol y Cyngor ar ddiwedd mis Mawrth 2022. Roedd hyn yn cynnwys ystyried sefyllfa arian wrth gefn y Cyngor, cyflawni arbedion a pherfformiad arfaethedig o'u cymharu â'r gyllideb arfaethedig ar gyfer y flwyddyn.

7 Hefyd, gwnaethom gyhoeddi Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol ym mis Chwefror 2022 sy'n cynnwys amrywiaeth o ddata ariannol ar gyfer cynghorau, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

### Strategaeth ariannol

8 Canfu ein gwaith blaenorol ar gynaliadwyedd ariannol fod y Cyngor yn datblygu dull mwy cynaliadwy o gynllunio ariannol, ond bod lle i:

- wella cywirdeb rhagolygon pwysau cost yn y dyfodol yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig;
- datblygu rhaglen Pontio'r Bwlch ymhellach i gau'r bwlch yn y gyllideb dros gyfnod llawn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

9 Ers hynny, mae'r Cyngor wedi adolygu ei amcangyfrifon pwysau cost ar gyfer y dyfodol, er mwyn adlewyrchu tueddiadau pwysau cost diweddar yn fwy cywir. Mae hefyd yn adolygu ei raglen Pontio'r Bwlch yn rheolaidd fel bod y rhagolygon arbedion sydd yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf. Bu hyn yn enwedig o bwysig dros y ddwy flynedd ddiwethaf wrth i'r pandemig effeithio ar allu'r Cyngor i fwrw ymlaen â rhai o'i fentrau cynhyrchu incwm.


10 Cymeradwyodd yr aelodau Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a ddiweddarwyd ym mis Tachwedd 2021. Cafodd y strategaeth ei diweddaru hefyd yn rhan o gynigion y gyllideb i adlewyrchu ffigurau setliad Llywodraeth Cymru, y sefyllfa ddiweddaraf ar bwysau cost a meysydd twf, a chostau cyfredol yn gysylltiedig â COVID-19 na chwmpesir mwyach gan y Gronfa Caledi.

11 Gostyngodd bwlch cyllideb rhagamcanol y Cyngor ar gyfer y dyfodol yn ystod 2021–22. Dengys **Arddangosyn 1** fod y Cyngor yn disgwyl gwarged cyllideb dros ddwy flynedd gyntaf y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig presennol, ond diffyg cyfunol o £10.2 miliwn dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae'r sefyllfa well hon yn adlewyrchu'r setliadau dangosol sy'n ddyledus gan Lywodraeth Cymru ym

mlynyddoedd i ddod y Strategaeth ac mae'n rhagolwg arbedion Pontio'r Bwlch o £6.7 miliwn dros dymor y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

**Arddangosyn 1: y cyfanswm a ragwelir ar gyfer bwlch cyllid tymor canolig y Cyngor yw £10.2 miliwn – mae hyn £11.5 miliwn yn is na rhagolwg y llynedd**

Mae'r graff hwn yn dangos y bwlch cyllid tymor canolig a nodwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2021[1] a mis Mawrth 2022[2]. Mae ffigyrau negyddol yn dynodi gwarged, mae ffigyrau positif yn dynodi bwlch cyllid.




12 Mae setliadau cyllid dangosol Llywodraeth Cymru ar sail cyfartalog Cymru gyfan o 3.5% a 2.4% yn y drefn honno ar gyfer 2023–24 a 2024–25 yn darparu rhywfaint o sicrwydd cyllidol dros y tymor canolig. Fodd bynnag, bydd gwaith cynllunio ariannol tymor canolig yn parhau i ddibynnu ar ystod o ragdybiaethau, ac o'i gyplysu â'r dirwedd economaidd-gymdeithasol sy'n newid yn y cyfnod hwn o ansicrwydd

[1] Ffynhonnell: Adroddiad y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2021–22 a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Mawrth 2021.

[2] Ffynhonnell: Rhagolwg Strategaeth Ariannol Tymor Canolig diwygiedig (dogfen fewnol) dyddiedig Mawrth 2022 yn dilyn penderfyniad y Cyngor i beidio â chynyddu'r dreth gyngor yn rhan o gyllideb 2022–23.

economaidd sylweddol, bydd cynllunio ar gyfer cadernid ariannol a rowndiau cyllideb y dyfodol yn parhau i fod yn heriol i gynghorau.

13 Felly, mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig nesaf yn debygol o ragweld bwlch cyllido tymor canolig sy'n fwy, o ystyried effaith chwyddiant a chyfraddau llog sy'n uwch na'r disgwyl. Canfuom hefyd nad oedd rhai o strategaethau y Cyngor wedi eu costio'n llawn pan gytunwyd arnynt ac felly ni chydnabyddir y gost lawn o'u cyflawni nhw yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Mae hyn yn golygu bod y gofynion adnoddau a nodir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cael eu tanddatgan. Dylai'r Cyngor ystyried manteision cyfrifo costau dangosol pan mae'n datblygu ei strategaethau.

## Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy

14 Mae'r Cyngor yn parhau i gynyddu ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ac mae wedi cynnal ei ymrwymiad Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i ddyrannu £200,000 y flwyddyn i'r gronfa gyffredinol. Mae hyn wedi arwain at sefyllfa sy'n gwella'n raddol. Dengys **Arddangosyn 2**, o'u hystyried fel canran o'r gost net am wasanaethau, fod lefelau'r Cyngor o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi gwella dros y pum mlynedd ddiwethaf o'r safle isaf yng Nghymru i'r 15fed safle.

**Arddangosyn 2: nifer y cronfeydd wrth gefn o'u cymharu â'r gyllideb flynyddol**

Dengys yr arddangosyn hwn faint o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy oedd gan y Cyngor ar ddiwedd 2021–22 a'r pum mlynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor[3].

| | 2016–17 | 2017–18 | 2018–19 | 2019–20 | 2020–21 | 2021–22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy mewn £ miliynau [4] | 12.9 | 10.6 | 12.7 | 14.7 | 28.3 | 45.3 |
| Cost net y gwasanaethau[5] | 146.2 | 147.1 | 146.3 | 148.2 | 146.1 | 149.8 |
| Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel canran o gost net y gwasanaethau | 8.8% | 7.2% | 8.7% | 9.9% | 19.4% | 30.2% |

[3] Ffynhonnell: 2016–17 hyd 2020–21: Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Archwilio Cymru; 2021–22: Datganiad drafft o gyfrifon y Cyngor (ffigyrau heb eu harchwilio).

[4] Trwy gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, rydym yn golygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â'r cronfeydd wrth gefn a neilltuwyd nad yw cynghorau'n cael eu hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio at ddiben arall.

[5] Y gwerth a ddefnyddiwyd yw'r gost net a godwyd ar y gronfa gyffredinol am y gwasanaethau o'r Dadansoddiad Cyllid Gwariant, namyn cost unrhyw wasanaethau Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion.

| | 2016–17 | 2017–18 | 2018–19 | 2019–20 | 2020–21 | 2021–22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhariaeth â chynghorau eraill Cymru | 22ain | 22ain | 21ain | 17eg | 15fed | Nid ydynt ar gael eto |

15 Bu cynnydd ychwanegol o £16.9 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar ddiwedd 2021–22, gan gynnwys cronfeydd wrth gefn newydd i gefnogi cadernid ariannol ac i helpu i fynd i'r afael ag effaith chwyddiant a phwysau cost gwasanaethau. O ganlyniad i'r cynnydd hwn, bu tanwariant o £8.5 miliwn o'i gymharu â'r gyllideb a grantiau ychwanegol nad oedd wedi eu pridiannu a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.

16 Mae'r aelodau yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am sefyllfa y cronfeydd wrth gefn ac maent yn cymeradwyo penderfyniadau ar sut i ddefnyddio neu ychwanegu at gronfeydd wrth gefn.

## Cyflawni arbedion

17 Canfuom yn flaenorol fod gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion a gynlluniwyd ac mae wedi bod yn newid ei ddull o nodi arbedion tymor hir mwy cynaliadwy a gostyngiadau yn y gyllideb drwy ei raglen Pontio'r Bwlch.

18 Rhwng 2017–18 a 2019–20, llwyddodd y Cyngor i gyflawni rhwng 91% a 98% o'i arbedion arfaethedig. Gostyngodd hyn i 80% yn 2020–21 oherwydd COVID-19, gan nad oedd modd bwrw ymlaen â sawl menter cynhyrchu incwm.

19 Ar gyfer 2021–22, amcangyfrifodd y Cyngor y byddai ei raglen Pontio'r Bwlch yn arwain at arbedion o £755,000. £948,000 oedd y cynilion gwirioneddol. Roedd y cynnydd yn ganlyniad i incwm rhent uwch na'r disgwyl ar unedau diwydiannol ac ad-daliad ardrethi yn dilyn apêl ynghylch gwerthoedd ardrethol eiddo ac asedau y Cyngor.

## Y perfformiad o'i gymharu â'r gyllideb

20 Rydym wedi adrodd yn y gorffennol bod perfformiad cyffredinol y Cyngor o'i gymharu â'r gyllideb yn gwella. Mae trefniadau rheoli ariannol cryfach wedi helpu i leihau gorwariant, er bod meysydd o orwariant a phwysau cost diatal yn dal i ddigwydd.

21 Mae enghreifftiau o'r Cyngor yn cymryd camau llwyddiannus i fynd i'r afael â pheth o'r gorwariant hwn. Er enghraifft, mae gorwariant sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf yn ymwneud â ffioedd cyfreithiol allanol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal oherwydd trafferthion recriwtio a chadw staff cyfreithiol mewnol arbenigol. Mae Cyngor Caerffili wedi bod yn darparu'r gwasanaeth cyfreithiol hwn ers mis Ebrill 2022. Mae'r trefniant cydweithredol yn darparu ateb mwy costeffeithiol, a disgwylir iddo atal y gorwariant a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

22 Mae meysydd gorwariant cyfredol eraill yn 2021–22 yn cynnwys lleoliadau y tu allan i'r sir ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig a gwasanaethau gwastraff.

23 Ar gyfer 2021–22, adroddodd y Cyngor warged diwedd blwyddyn o £8.5 miliwn o'i chymharu â'r gyllideb. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfarwyddiaethau yn llai na'r gyllideb, yn rhannol oherwydd cyllid grant ychwanegol a swyddi gwag heb eu llenwi a achoswyd gan heriau recriwtio a chadw. Bu gorwariant o £0.07 miliwn gan y gyfarwyddiaeth Addysg a Hamdden, yn bennaf oherwydd costau lleoliadau y tu allan i'r sir a threfniadau staffio dros dro i gwmpasu absenoldebau COVID-19 a mamolaeth mewn ysgolion.

24 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi defnyddio tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn i gynyddu lefelau ei gronfeydd wrth gefn ac i gryfhau ei gynaliadwyedd ariannol. Yn rhan o'r broses o bennu cyllideb 2021–22, cytunodd y Cyngor unwaith eto i drosglwyddo unrhyw warged ar ddiwedd y flwyddyn i gronfa wrth gefn a neilltuwyd, er mwyn cefnogi'r gwaith cynllunio ariannol tymor canolig.

# Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

## Mae'r Cyngor yn rhoi trefniadau ar waith mewn ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ond mae'n cydnabod bod angen datblygu ymhellach ei ddull o hunanasesu ac o ymgysylltu â'r cyhoedd

25 Aethom ati i asesu cynnydd y Cyngor wrth ymateb i'r gofynion allweddol yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 rhwng Tachwedd 2021 a Gorffennaf 2022. Casglwyd y dystiolaeth trwy gyfweliadau ac adolygiadau dogfennau a hefyd drwy ddefnyddio canfyddiadau perthnasol o'n gwaith arall sy'n mynd ymlaen yn y Cyngor. Edrychodd ein gwaith ar y trefniadau mae'r Cyngor yn eu rhoi ar waith wrth ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

26 Mae'r Cyngor yn deall yr hyn y mae angen iddo ei wneud i fodloni gofynion y Ddeddf ac mae wedi datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb i hynny.

27 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau barhau i adolygu perfformiad, ac ymgynghori ac adrodd ar berfformiad drwy hunanasesu. Mae'n rhaid i gynghorau gyhoeddi hunan-asesiad o'u perfformiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

28 Mae'r Cyngor yn bwriadu adrodd yr allbwn o'i hunan-asesiad i'r Cyngor ym mis Hydref 2022. Mae'r Cyngor yn adolygu ei drefniadau hunanasesu ac yn drafftio dull ehangach er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni gofynion y Ddeddf. Mae'r broses hon wedi ei llywio gan weithdai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r Cyngor yn disgwyl parhau i adolygu a mireinio ei broses hunanasesu. Mae'n cydnabod bod

angen mwy o waith, yn benodol i fodloni gofynion y ddyletswydd ymgynghori a'i nod yw adeiladu ar y trefniadau ymgysylltu presennol i wneud hynny, gan gynnwys defnyddio ei Banel Dinasyddion.

29 Mae'r Cyngor yng nghamau cynnar y gwaith o ddatblygu ei strategaeth cyfranogi. Bydd y strategaeth yn cwmpasu ymgysylltu a chyfranogiad mewnol ac allanol, hy gyda staff ac aelodau yn ogystal â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith ar gyfer ymgysylltu â staff ac undebau llafur. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i sicrhau bod pob deiliad allweddol yn cael y cyfle i gymryd rhan ac yn deall bod angen rhagor o waith i ymgysylltu'n effeithiol â'r sector busnes. Mae ymgysylltiad diweddar â busnesau gan adran Adfywio y Cyngor yn rhoi llwyfan i adeiladu arni ac mae gan y Cyngor sawl sianel ar gyfer ymgysylltu â busnesau lleol.

30 Mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf ac mae wedi cynnal sesiynau cynefino ar gyfer aelodau'r pwyllgor. Mae hefyd yn adolygu disgrifiadau o swyddogaeth a rhaglenni gwaith pwyllgorau er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â gofynion y Ddeddf. Mae'r Cyngor wedi gwneud rhai mân newidiadau eraill i'w Gyfansoddiad ac mae'n bwriadu ystyried unrhyw newidiadau ychwanegol drwy ei weithgor cyfansoddiadol ar ôl i'r Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru lunio templed cyfansoddiad model.

# Cynllun lleihau carbon

## Cyd-destun

31 Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030 sy'n edrych ar gamau datgarboneiddio mewn 48 o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys yr holl gynghorau. Canfu'r adroddiad hwn ansicrwydd y bydd yr uchelgais ar y cyd o sector cyhoeddus sero net erbyn 2030 yn cael ei fodloni. Nododd ein gwaith rwystrau sylweddol cyffredin i gynnydd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus fynd i'r afael â nhw ar y cyd er mwyn bodloni'r uchelgais ar y cyd. Canfuom er bod cyrff cyhoeddus yn dangos ymrwymiad i leihau allyriadau carbon, erbyn hyn, mae'n rhaid iddynt gynyddu eu gweithgareddau'n sylweddol, cynyddu cydweithrediad a rhoi datgarboneiddio wrth wraidd eu gweithrediadau a'u penderfyniadau o ddydd i ddydd.

32 Yn yr adroddiad, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud y pum galwad canlynol am weithredu gan gyrff cyhoeddus:

- cryfhau eich arweinyddiaeth a dangos eich cyfrifoldeb ar y cyd drwy gydweithrediad effeithiol;
- egluro eich cyfeiriad strategol a chynyddu cyflymder y gweithrediad;
- mynd i'r afael â'r cyllid sydd ei angen arnoch;
- adnabod eich bylchau sgiliau a chynyddu eich capasiti; a

- gwella ansawdd data a gwaith monitro i gefnogi eich proses o wneud penderfyniadau.

33 Aethom ati i asesu trefniadau'r Cyngor i ddatblygu a chyflawni ei Gynllun Datgarboneiddio rhwng mis Mehefin a mis Awst 2022. Roedd ein gwaith yn cynnwys canolbwyntio ar eglurder gweledigaeth y Cyngor, gweithio mewn partneriaeth ac atal yn ogystal â'r broses monitro ac adolygu. Gwnaethom gasglu tystiolaeth drwy gyfweliadau, adolygiadau dogfennau a Galwad am Dystiolaeth ar gyfer yr Adolygiad Sylfaenol Datgarboneiddio y Cyngor a ddychwelwyd.

34 Mae'r paragraffau canlynol yn nodi canfyddiadau ein gwaith archwilio lleol ar gynllun gweithredu datgarboneiddio y Cyngor. Yng nghyd-destun ehangach adroddiad Gorffennaf 2022 yr Archwilydd Cyffredinol sy'n galw am gyflymu'r broses ac arweiniad cryfach ledled Cymru o ran lleihau allyriadau carbon y mae'r canfyddiadau hyn.

## Mae'r Cyngor wedi mapio ei ôl troed carbon ac mae ganddo weledigaeth glir a chyfres o gamau gweithredu ar gyfer ei uchelgais datgarboneiddio, ond nid yw'n deall effeithiau carbon y camau hyn yn llawn na sut y byddant yn cael eu cyllido

35 Mae gan ddatgarboneiddio broffil strategol yn y Cyngor ac, ym mis Medi 2020, penderfynodd yn unfrydol ddatgan argyfwng hinsawdd. Gosododd y Cyngor uchelgais glir i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 yn ei Gynllun Datgarboneiddio 2020–2030. Hefyd, mae ganddo uchelgais carbon niwtral fel un o'r blaenoriaethau canlyniadau allweddol yn ei Gynllun Corfforaethol presennol. Yn ddiweddar, mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i ystyried ei ddull o ddatblygu ei gynllun ar gyfer sero net 2050 ac ar hyn o bryd mae'n ystyried y methodolegau mwyaf priodol i gefnogi hyn.

36 Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth ddatblygedig o'i ôl troed carbon a gefnogir gan rywfaint o waith cynnar gyda Cyfoeth Naturiol Cymru drwy'r Prosiect Carbon Bositif. Mae'r Cyngor hefyd wedi cynnal pum Asesiad Parodrwydd, gan addasu'r asesiadau rhwydwaith gweithredu hinsawdd ar sail lleoedd a ddatblygwyd ar gyfer Comisiwn Hinsawdd Leeds, mewn meysydd pontio megis cludiant, atebion ar sail natur ac adeiladau. Er y cydnabyddir nad yw'r Asesiadau Parodrwydd ond yn rhan o'r daith i sero net, maent yn cynnwys data allyriadau gronynnog ac yn rhoi trosolwg o'r ddwy her a'r cyfleoedd i ddatgarboneiddio. Mae pob Asesiad Parodrwydd yn dod i ben gyda sawl Gweithred Lefel Uchel sydd wedi ffurfio sail ar gyfer taith ddatgarboneiddio y Cyngor. Mewn rhai meysydd pontio megis ateb ar sail natur a chaffael, mae angen gwella'r wybodaeth a'r data ymhellach. Mae angen rhagor o waith hefyd i sicrhau bod y Camau Gweithredu Lefel Uchel yn cael eu dwyn at ei gilydd o dan un cynllun cynhwysfawr a'u bod yn cael eu

blaenoriaethu ar sail meini prawf megis eu heffaith o ran carbon neu eu heffaith ariannol.

37 Mae gan y Cyngor sawl strwythur llywodraethu sy'n goruchwylio ei daith ddatgarboneiddio, megis yr hen Fwrdd Datgarboneiddio. Cyn bo hir, bydd y Bwrdd hwn yn cael ei ddisodli gan Grŵp Hinsawdd Craidd newydd, gan gynrychioli uwch-swyddogion a chynghorwyr. Mae gan y Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol swyddogaeth oruchwylio ac mae wedi herio'r pum Asesiad Parodrwydd a chymeradwyo'r Cynlluniau Gweithredu Lefel Uchel a gynhwysir ynddynt. Yr oedd pwyllgor Craffu Adfywio y Cyngor yn goruchwylio'r Cynllun Datgarboneiddio cyn mis Mai 2022. O dan strwythur pwyllgor presennol, y Pwyllgor Craffu Lleoedd sy'n gyfrifol am y swyddogaeth hon. Mae diweddariadau i'r Cynllun hefyd wedi eu trafod yn y Cyngor a'r Pwyllgor Gweithredol. Mae monitro cynnydd o ran datgarboneiddio a'r Camau Gweithredu Lefel Uchel yn benodol yn cael eu hintegreiddio i Gynlluniau Busnes y Gwasanaeth, yna bydd hyn yn cael ei fonitro drwy'r trefniadau rheoli perfformiad presennol. Heblaw am yr hyn a adroddir yng Nghynllun Datgarboneiddio y Cyngor, ymddengys nad oes llawer o adroddiadau cyhoeddus am gynnydd o ran datgarboneiddio. Mae'r Cyngor yn bwriadu datblygu dangosfwrdd perfformiad datgarboneiddio — mae hyn yn gyfle i ddatblygu set o fetrigau y gellir eu defnyddio i fesur a dangos cynnydd.

38 Mae'r Cyngor yn cydweithredu i gefnogi'r her o gyflawni ei dargedau datgarboneiddio, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygu ymateb ledled y fwrdeistref sirol i newid yn yr hinsawdd drwy drefniadau partneriaeth leol sydd ynghlwm wrth Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Gwent. Sefydlodd y trefniadau hyn Grŵp Llywio Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd i ystyried problemau allyriadau tiriogaethol yn ardal Blaenau Gwent. Mae enghreifftiau o'r dull cydweithredol hwn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Gwent i gynnal Cynulliad Hinsawdd Blaenau Gwent, y cynulliad hinsawdd cyntaf yng Nghymru, a gynhaliwyd ar-lein ym mis Mawrth 2021. Roedd hyn yn cynnwys 44 o drigolion a oedd yn cynrychioli Blaenau Gwent yn ddemograffig a lluniwyd pum argymhelliad swyddogol. Mae gwaith pellach i gynnal y cynnydd ar y pum argymhelliad hyn ar y gweill ar hyn o bryd. Mae enghreifftiau eraill o gydweithredu yn cynnwys treialu gwaith Cynllun Ynni Ardal Lleol â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru. Er bod y cynllun peilot hwn ar gam cynnar yn ei ddatblygiad, mae gan y gwaith y potensial o wneud cyfraniad sylweddol at ddatblygiad y cynllun datgarboneiddio rhanbarthol ehangach ar gyfer Gwent.

39 Mae'r Cyngor wedi nodi ei fuddsoddiadau mewn mentrau datgarboneiddio, er enghraifft £4 miliwn a fuddsoddwyd mewn goleuadau, gwresogi, rheolaeth ac ynni adnewyddadwy sydd wedi ei integreiddio i'r adeiladau ar draws 20 eiddo y mae'n berchen arnynt. Fodd bynnag, bydd cyflawni ei uchelgais sero net yn effeithio ar ei gyllideb yn y tymor byr a'r tymor hwy. Nid yw'r Cyngor wedi nodi a dyrannu digon o adnoddau eto i gyflawni'r prosiectau/mentrau sydd yn ei gynlluniau Camau Gweithredu Lefel Uchel. Dylai'r gofyniad arfaethedig ar gyfer pob adroddiad yn y dyfodol am benderfyniad i gynnwys effaith carbon a chost ddarparu gwell gwybodaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, er y dylai'r broses

asesu parodrwydd alluogi’r Cyngor i gael gwell dealltwriaeth o effaith ariannol ei weithredoedd, mae gwaith ar ddiffinio’r costau hyn yn dal i fod ar gam cynnar ac mae angen ei ymgorffori o hyd i’w Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a’i Rhaglen Gyfalaf. Rydym yn deall yr heriau wrth asesu cost ariannol ac effaith carbon y gweithredoedd datgarboneiddio, ond bydd y data hyn yn allweddol i flaenoriaethu camau gweithredu sy’n darparu’r budd mwyaf a dealltwriaeth o’r gofynion cyllido.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.